

Tasg 4

Beth nesaf?

Argraffwch y sgwrs a darllenwch hi gyda phartner.

Beth sy'n digwydd nesaf, tybed?

Ysgrifennwch ddarn i ddilyn y sgwrs. Dyma rai syniadau:

- deialog – gallwch chi barhau'r ddeialog rhwng Jo a Sean os ydych chi eisiau neu gallwch chi ysgrifennu deialog rhwng Jo a'i mam – efallai ei bod hi'n dod i mewn i'r ystafell ac yn dal Jo yn siarad â Sean
- darn o newyddion – efallai bod rhywbeth yn digwydd i Jo neu Sean ar ôl y sgwrs yma
- llythyr i gylchgrawn ar gyfer pobl ifanc - efallai bod Jo'n ysgrifennu i sôn am beth ddigwyddodd wedyn
- blog yn sôn am beth ddigwyddodd.

Fodd bynnag, mae croeso i chi ysgrifennu rhywbeth gwahanol os ydych chi eisiau.